



Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

SAFONAU'R GYMRAEG

Adroddiad Monitro Blynyddol
2018/19

SAFONAU'R GYMRAEG

ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL 2018/19

YR HYN Y MAE'R MESUR YN EI GWNEUD YN OFYNNOL I'R AWDURDOD EI WNEUD

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 wedi disodli Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 ac, yn rhan o'r ddeddfwriaeth newydd, mae gan y Gymraeg yr un statws â Saesneg yng Nghymru, a rhaid iddi beidio â chael ei thrin yn llai ffafriol.

Rhoddodd Comisiynydd y Gymraeg Hysbysiad Cydymffurfio i Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ar 30 Medi 2016. Mae'r hysbysiad hwn yn nodi'r Safonau sy'n berthnasol i Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, ynghyd ag unrhyw eithriadau a'r dyddiadau y dylid eu gweithredu. Gallwch gyrchu Hysbysiad Cydymffurfio Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yma.

Yn rhan o'r Hysbysiad Cydymffurfio, roedd yn ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi dogfen yn nodi'r modd yr oedd yn bwriadu cydymffurfio â'r Safonau ar lefel gorfforaethol, yn ogystal â nodi ei brosesau mewnol ar gyfer goruchwyllo a monitro'r broses o weithredu'r Safonau, a hynny erbyn 30 Mawrth 2017. Gallwch gyrchu Cynllun Gweithredu Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yma.

O dan y ddeddfwriaeth, mae hefyd yn ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi adroddiad monitro blynyddol ar y cynnydd a wnaed tuag at gyflawni a chynnal Safonau'r Gymraeg. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu cydymffurfiaeth Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn ystod 2018-19.

Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, a hynny er mwyn cydnabod gwerth amrywiaeth gyfoethog ei chymunedau yn erbyn cefndir o dreftadaeth naturiol a diwylliannol arwyddocaol.

Mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod ei ddyletswydd i'w staff, y mae'r mwyafrif ohonynt yn byw yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru, ac sy'n adlewyrchu gwneuthuriad ieithyddol a diwylliannol eu cymunedau eu hunain. Trwy gydnabod ei ddyletswyddau moesol a chyfreithiol i amddiffyn treftadaeth ddiwylliannol yr ardal a bodloni disgwyliadau'r gymuned leol, mae'r Awdurdod yn parhau i weithio tuag at sicrhau ei fod yn cynnal ei fusnes cyhoeddus trwy gyfrwng y ddwy iaith.

Trwy gydol 2018-19, parhaodd yr Awdurdod i gydymffurfio â'r set o Safonau'r Gymraeg a gyhoeddwyd yn ei Hysbysiad Cydymffurfio ar 30 Medi 2016. Parhaodd hefyd i weithio gyda'r ddau Wasanaeth Tân ac Achub arall yng Nghymru trwy fforwm Grŵp Iaith.

SAFONAU'R GYMRAEG

ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL 2018/19



MONITRO CYDYMFFURFIAETH Â SAFONAU'R GYMRAEG

Mae yna nifer o Safonau sy'n berthnasol i gadw cofnodion y mae'n rhaid i'r Awdurdod eu cyhoeddi bob blwyddyn. Manylir ar y rhain isod:

Safon 147: Nifer y gweithwyr sy'n meddu ar sgiliau Cymraeg

O blith y 1,300 o bersonél (ar 31 Mawrth 2019), cadarnhaodd 412 eu bod yn meddu ar sgiliau Cymraeg (lefel 2 ac uwch), a nododd 183 o'r rheiny eu bod yn siaradwyr Cymraeg rhugl.

Mae'r Gymraeg yn hanfodol ar gyfer pob swydd derbynnydd, ac mae'r holl weithwyr yn rhoi cyfarchiad dwyieithog wrth ateb y ffôn er mwyn gwirio a chofnodi'r dewis iaith. Mae hyn yn berthnasol i alwadau mewnol ac allanol. Mae canllawiau wedi cael eu llunio a'u cyhoeddi'n fewnol, a disgwylir i bob gweithiwr fod yn atebol yn bersonol am ddilyn y weithdrefn gywir er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gyfreithiol bob amser.

Safon 148: Nifer yr aelodau o staff a fu ar gyrsiau hyfforddi penodol y mae'n rhaid eu darparu trwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt ar gael yn Saesneg (er enghraifft, hyfforddiant ar recriwtio a chyfweld, rheoli perfformiad, cwynion, sefydlu, delio â'r cyhoedd, ac iechyd a diogelwch).

Mae yna ddarpariaeth ar gyfer sicrhau bod pob cwrs hyfforddi y mae'n rhaid ei ddarparu trwy gyfrwng y Gymraeg, os yw ar gael yn Saesneg, ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, yn ystod 2018-19, ni ddaeth yr un cais i law i gynnal y cyrsiau hyn trwy gyfrwng y Gymraeg.

Safon 151: Nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a ddsberthir yn rhai lle mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol, yn ddymunol neu ddim yn angenrheidiol, neu lle mae angen dysgu sgiliau Cymraeg.

Yn ystod 2018-19, hysbysebwyd 29 o swyddi gwag, ac er nad oedd yr un ohonynt wedi'u dosbarthu yn swyddi lle mae'r Gymraeg yn hanfodol, nodwyd bod y Gymraeg yn ddymunol yn hysbyseb pob un ohonynt.

Yn ystod yr un cyfnod, roedd Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru hefyd wedi cyflogi 104 o Ddiffoddwyr Tân Ar Alwad ac 34 o Ddiffoddwyr Tân Amser Cyflawn – cafodd pob un o'r rhain hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn ystod ei gyfnod sefydlu.

Safon 143: Nifer y cwynion a gaiff y sefydliad ynghylch pob dosbarth o safonau.

Caiff cwynion eu monitro gan yr Adran Cyfathrebu Corfforaethol a Datblygu Busnes, sydd hefyd yn delio â nhw. Adroddir yn flynyddol i'r Awdurdod Tân ac Achub am gwynion a llythyrau o werthfawrogiad. Ni ddaeth yr un gwyn i law yn 2018-19 mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi cyhoeddi gweithdrefn gwyno ar ei wefan, ac mae ganddo hefyd bolisi mewnol ar gyfer staff o ran y modd y dylid mynegi pryder neu wneud cwyn.

SAFONAU'R GYMRAEG

ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL 2018/19

HYBU'R GYMRAEG

Mae'r gwaith o hybu'r Gymraeg yn cael ei wneud yn fewnol mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys trwy Gynllun Hyrwyddwyr Ymgysylltu y Gwasanaeth, fel eitem sefydlog yng nghyfarfodydd Tîm Uwch-arweinwyr y Gwasanaeth, a thrwy dudalennau newyddion y Gwasanaeth ar y fewnrwyd, @connect.

Mae'r Adran Adnoddau Dynol yn gwirio dewis iaith darpar weithwyr yn y pwynt cyswllt cyntaf, ac yn cofnodi'r wybodaeth hon i'w defnyddio yn y dyfodol. Mae'n cadw cofnod o'r holl aelodau o staff sydd wedi gwneud cais i gael gohebiaeth trwy gyfrwng y Gymraeg, ynghyd â sgiliau iaith yr holl weithwyr. Caiff yr wybodaeth hon ei diweddarau'n flynyddol trwy holiadur sgiliau Cymraeg. Mae holl bolisiau a ffurflenni'r adran Adnoddau Dynol sy'n berthnasol i gyflogaeth unigolion wedi cael eu cyfieithu a'u cyhoeddi'n fewnol. Gall prosesau sy'n ymwneud â chŵynion cyflogaeth a disgyblaeth hefyd gael eu cynnal trwy gyfrwng y Gymraeg ar gais, gyda dewis iaith yr unigolyn yn cael ei barchu bob amser. Cynigir cyrsiau Cymraeg i'r holl weithwyr yn flynyddol trwy eu cyfweliad mewn perthynas â'u Hadolygiad o Ddatblygiad Unigol. Mae'r Adran Cyfathrebu Corfforaethol a Datblygu Busnes yn cadw cofnodion o'r holl gyrsiau Cymraeg yr aethpwyd arnynt, ynghyd â'r holl asesiadau yr ymgwymerwyd â nhw.

Fel yn achos polisi Cymraeg blaenorol y Gwasanaeth, mae gwaith yn mynd rhagddo i gynnig dewisiadau iaith mewn modd rhagweithiol i holl ddefnyddwyr y Gwasanaeth gan fod hyn bob amser wedi bod yn fuddiol, yn ogystal ag yn ffordd o wella'r broses o ymgysylltu â holl aelodau'r gymuned. Rydym yn parhau i hyrwyddo gwiriadau Byw'n Ddiogel ac lach trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg, a chynhyrchir holl ddeunydd hyrwyddo'r Gwasanaeth yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn ymddangos gyntaf bob tro.

Mae'r gweithwyr wedi cael canllawiau ynghylch pwysigrwydd cynnig dewis iaith i bawb, boed hynny wyneb yn wyneb neu dros y ffôn. Ailadroddir y neges hon yn ystod y sesiwn orfodol ar Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg sydd wedi cael ei llunio ar gyfer y gweithwyr ac sy'n cael ei chyflwyno yn ystod sesiynau sefydlu wyneb yn wyneb newydd-ddyfodiaid. At hynny, cynhyrchwyd canllawiau ar gyfer cyhoeddi gohebiaeth ar gyfer y cyhoedd, ac mae pob llofnod e-bost a phapur pennawd yn cynnwys datganiad sy'n croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. Mae'r logos Siarad Cymraeg a Dysgu Cymraeg hefyd wedi cael eu cynnwys mewn llofnodion e-bost safonol, ac mae llinynnau Siarad Cymraeg a Dysgu Cymraeg wedi cael eu dosbarthu i'r gweithwyr yn unol â hynny.

Mae gwefan Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, yn ogystal â'r sianeli cyfryngau cymdeithasol corfforaethol, yn gwbl ddwyieithog, ac ymdrinnir ag ymholiadau sy'n dod i law trwy'r sianeli hyn yn newis iaith y derbynydd.

SAFONAU'R GYMRAEG

Adroddiad Monitro Blynyddol
2018/19



**Cyfathrebu Corfforaethol
a Datblygu Busnes**
Corporate Communications and
Business Development